

Cofnodion **BWRDD YR YMDDIRIEDOLWYR** a gynhaliwyd ar 24 Medi 2015 yn
Oakdale, Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru

Nodiadau	Gweithredu
<p>PRESENNOL: Elisabeth Elias, Llywydd (yn y Gadair); Haydn Edwards, Is-lywydd; Laurie Pavelin, Trysorydd; Carol Bell; Carole-Anne Davies; Christina Macaulay; Gareth Wyn-Jones; Glenda Jones; Hywel Ceri Jones; Kay Andrews; Keshav Singhal; Miriam Griffiths; Robert Pickard; Tony Atkins; Victoria Provis; David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol; Mark Richards, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu; Neil Wicks, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol; Janice Lane, Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfyngau Digidol; Judith Ingram, Pennaeth Polisi a Chynllunio; ac Elaine Cabuts, Ysgrifennydd yr Amgueddfa.</p> <p>HEFYD YN BRESENNOL: Linda Tomos (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) fel sylwedydd.</p>	
<p>Dywedodd Linda Tomos, Cyfarwyddwr MALD, y byddai'n ymddeol o MALD ddiwedd Hydref 2015. Soniodd wrth yr Aelodau am hynt y gwaith o recriwtio Prif Weithredwr ar gyfer Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a phenodiadau oddi mewn i MALD a oedd yn berthnasol i'r Is-adran. Mynegodd Linda Tomos ei diolch a'i gwerthfawrogiad i'r Amgueddfa ac yna cofnododd y Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol eu gwerthfawrogiad mawr iawn i Linda Tomos am ei chyddealltwriaeth, ei chyfraniad, ei chefnogaeth, ei harweiniad a'i chyngor ar draws holl weithgareddau'r Amgueddfa, ac yn enwedig o ran penodi Ymddiriedolwyr.</p>	
<p>1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU</p> <p>1.1 Croesawyd yr Aelodau a Linda Tomas i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriad gan Lesley-Anne Kerr (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd).</p>	
<p>Yn Sesiwn Gaeedig y cyfarfod, bu'r Bwrdd yn trafod penodi Ymddiriedolwyr, y Rhaglen Newid, cynllunio ariannol, Adolygiad Llywodraeth Cymru o Amgueddfeydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru a sganio'r gorwel, a chawsant eu briffio arnynt.</p> <p><i>Wedi hynny, agorwyd y cyfarfod i'r cyhoedd ond nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.</i></p>	
<p>2 COFNODION</p> <p>5.1 <u>Penderfynwyd:</u> Cymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin 2015.</p>	
<p>3 MATERION YN CODI o gofnodion 18 Mehefin 2015</p> <p>3.1 14.1 Cyfarfod gydag undeb PCS – Cyfarfu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Addysg,</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol â swyddogion yr undeb. Roedd swyddogion y Bwrdd yn bresennol ar gyfer y cyfarfod un-tro hwn a oedd yn gyfle i'r rhai oedd yn bresennol i glywed barn yr undeb. Roedd yn gyfarfod cyfeillgar.</p> <p>3.2 13.2 Gwarant y Goron – Adroddodd Cadeirydd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn bod Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi dilyn y drefn gywir ac wedi ymchwilio i gostau adolygu dilysrwydd Gwarant y Goron. Roedd Bwrdd Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn wedi cytuno bod Gwarant y Goron yn gryf ac felly nad oedd yn amser addas i'w gwestiynu.</p>	
<p>4 CYFUNO: DIWYLLIANT A THLODI</p> <p>4.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Arddangosfeydd a Chyfryngau Digidol.</p> <p>4.2 <u>Adroddwyd</u>: Roedd yr adroddiad yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Aelodau am ddull rhagweithiol yr Amgueddfa o symud ymlaen â'r argymhellion o adroddiad Kay Andrews, <i>Diwylliant a Thlodi: Defnyddio'r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth i hybu cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru</i>. Roedd gwaith yn cael ei wneud ym mhob un o'r chwe Ardal Arloesi yng Nghymru. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi brwdfrydedd eu cydweithwyr yn yr Ardaloedd Arloesi a'u ffyrdd dyfeisgar o weithio. Roedd cydlynnydd ymchwil wedi'i benodi ac roedd Llywodraeth Cymru'n darparu adnoddau ychwanegol.</p> <p>4.3 Nododd yr Aelodau statws Amgueddfa Cymru fel corff arweiniol. Roedd gwaith yn cael ei alinio i flaenoriaethau strategol ac adnoddau a oedd eisoes yn bod, yn genedlaethol ac yn lleol – gan gydweithio, er enghraifft, â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Adroddodd Linda Tomos fod y Dirprwy Weinidog yn falch o'r cynnydd. Roedd mynd i'r afael â thlodi ac achosion tldi yn mynd i fod yn dasg hirdymor yng Nghymru ac roedd yr Amgueddfa mewn sefyllfa dda i gefnogi'r llywodraeth yn y dyfodol. Nododd yr Aelodau sut y byddai'r gwaith hwn yn ymateb i <i>Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015</i>. Nododd yr Aelodau bod amrywiaeth a gwahanol lefelau'r gweithgarwch yn y gwahanol Ardaloedd Arloesi yn amlwg o'r dechrau.</p> <p>4.4 Byddai'r gwerthuso yn canolbwyntio ar feysydd fel: beth sy'n digwydd o ganlyniad i'r gwaith hwn, pa newid a fu, beth yw'r canlyniadau i unigolion. Byddai cysylltiadau â chanlyniadau Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer unigolion.</p> <p><i>Gadawodd Kay Andrews y cyfarfod bryd hynny.</i></p> <p>4.5 Nododd yr Aelodau y dimensiwn Ewropeaidd i'r gwaith hwn a'i fod yn cynnwys holl adrannau Llywodraeth Cymru a bod potensial ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid Ewropeaidd.</p>	<p>Yr Uwch Dîm Rheoli</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p>4.6 Nododd yr Aelodau bwysigrwydd dathlu a hyrwyddo'r gwaith hwn yn fewnol gyda'r staff. Y swydd ymchwil hon oedd y cyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig.</p> <p>4.7 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod adroddiadau o hyn ymlaen yn ystyried y cydgysylltiad â chyllid Ewropeaidd.</p>	
<p>5 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYFFREDINOL, BRIFFIAD CHWARTEROL CHWARTER 1, MATERION CYFREDOL</p> <p>5.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>5.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y perfformiad wedi bod yn dda iawn dros y chwarter cyntaf. Roedd ffigurau ymwelwyr 4.52% yn uwch na'r targed ond 5.07% yn is na'r un cyfnod y llynedd. Roedd mwy o ymweliadau â'r wefan nag yn y flwyddyn flaenorol. O ran amcanion Map y Weledigaeth fewnol, rhagwelir y bydd pob un yn cyrraedd eu targed ac eithrio ailddatblygiad Sain Ffagan sydd rhwng chwech wythnos ac un wythnos ar ddeg ar ei hôl hi. Nid oedd yr ymweliadau addysg ffurfiol wedi cyrraedd eu targed yn y chwarter hwn chwaith ond rhagwelwyd y byddent yn cyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn. Rhagwelir y bydd yr Amcanion Galluogi yn cyrraedd eu targed hefyd ac eithrio Ein Diwylliant. Mae'r incwm, y gwariant a'r arian wrth gefn sy'n cael ei gario ymlaen yn unol â'r cyllidebau a gymeradwywyd. Nododd yr Aelodau bod y Bwrdd wedi cytuno i roi'r gorau'n llwyr i Daliadau Premiwm fel rhan o'i drafodaeth ar gynllunio ariannol yn Sesiwn Gaeedig cyfarfod y Bwrdd ar 12 Mawrth 2015.</p> <p>5.3 Nododd yr Aelodau bod Llywodraeth Cymru'n gobeithio ymateb i adroddiad yr <i>Adolygiad Arbenigol o ddarpariaeth amgueddfeydd lleol yng Nghymru 2015</i> ym mis Tachwedd. Roedd y Gweinidog wedi ymateb yn gadarnhaol i'r adroddiad a byddai ymateb Llywodraeth Cymru'n nodi sut y bwriadent droi'r argymhellion yn gynllun gweithredu yr oedd modd ei gyflawni. Roedd cynhadledd mis Hydref wedi'i gohirio tan y Flwyddyn Newydd am nad oedd rhanddeiliaid allweddol ar gael.</p> <p>5.4 Cofnododd y Llywydd ei diolch i Victoria Provis, un o'r Ymddiriedolwyr, am ei harweiniad yn y digwyddiad Cymru yn Llundain yr wythnos flaenorol, ac i'r staff a sicrhodd bod y digwyddiad mor llwyddiannus. Roedd yr Amgueddfa wrth ei bodd o gael cyfraniadau ariannol yn syth ar ôl y digwyddiad.</p> <p>5.5 Nododd yr Aelodau bod yr adroddiad <i>The Shape of Wales to come: Wales' economy, environment and society in 2020</i> wedi'i gyhoeddi gan Sefydliad Bevan a'i fod ar gael ar lein : www.bevanfoundation.org/publications/shape-wales-2020.</p> <p>5.6 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod yr Amgueddfa a'r staff Noddwyr yn cydweithio i ystyried beth y gallai'r argymhellion yn yr <i>Adolygiad Arbenigol o ddarpariaeth amgueddfeydd lleol yng Nghymru 2015</i> ei olygu i'r Amgueddfa.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyffredinol / MALD</p>

Nodiadau	Gweithredu
<p>6 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015</p> <p>6.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Pennaeth Polisi a Chynllunio.</p> <p>6.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru'n datblygu'r Bil trwy ymgynghori â rhanddeiliaid a bod y Ddeddf wedi dod i rym yng Nghymru ar 29 Ebrill 2015. Nododd yr Aelodau y goblygiadau i'r Amgueddfa ac y byddai Cynllun Strategol yr Amgueddfa 2016-2021 yn ymgorffori ei dargedau o ran llesiant ac amcanion Amgueddfa Cymru o ran llesiant.</p> <p>6.3 Cofnododd Gareth Wyn Jones, un o'r Ymddiriedolwyr, ei fod yn siomedig iawn â'r ffordd yr oedd yn teimlo bod y Bil wedi'i ddatblygu a'r Ddeddf wedi'i gweithredu. Teimlai nad oedd y Ddeddf yn mynd i'r afael â'r problemau arwyddocaol oedd yn wynebu Cymru.</p> <p>6.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod rhwymedigaethau statudol yr Amgueddfa mewn perthynas â'r Ddeddf yn cael eu cyfleu i'r Llywydd.</p>	<p>Pennaeth Polisi a Chynllunio</p>
<p>7 DIWEDDARIAD AR BROJECT CREU HANES SAIN FFAGAN AMGUEDDFA WERIN CYMRU</p> <p>7.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol/Cyfarwyddwr Gweithredu.</p> <p>7.2 <u>Adroddwyd</u>: Eu bod wedi cymeradwyo'r taliad o £1m gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. O ran y Prif Adeilad, llwyddwyd i ddal i fyny'n rhannol â'r amserlen a chymeradwywyd estyniad o bedair wythnos ar gyfer y Gweithdy. Mae'r Adran Ddatblygu'n parhau i archwilio cyfleoedd i godi arian a mynd ar eu hôl. Mae'r Cynllun Gweithgarwch yn dod ymlaen yn dda a chedwir llygad ar y Tîm Dylunio.</p> <p>7.3 Nododd y Llywydd ei diolch i'r holl staff a fu wrthi'n trefnu'r digwyddiad hyfforddi gwerthfawr, y teithiau a'r diweddariadau ar gyfer yr Ymddiriedolwyr.</p> <p>7.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny.</p>	
<p>8 CYFLWYNO CYFRIFON STATUDOL YR AMGUEDDFA 2014/15</p> <p>8.1 <u>Derbyniwyd</u>: Y cyfrifon a gyflwynwyd gan y Trysorydd.</p> <p>8.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y cyfrifon archwiliedig wedi'u gosod gerbron Llywodraeth Cymru ac wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd ar ôl i gyd-gyfarfod o'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio eu cymeradwyo ym mis Gorffennaf 2015. Cafodd y cyfrifon dystysgrif archwilio lân heb argymhellion rheoli. Bydd yr adroddiadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael eu diwygio i adlewyrchu unrhyw ganllawiau a ddaw oddi wrth Lywodraeth Cymru. Caiff adroddiad effaith ar wahân ei baratoi eleni. Ynghylch ymddangosiad y</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, nododd yr Aelodau eu perfformiad cryf yn y Pwyllgor, a'r ffaith y gallai fod gwrthdaro buddiannau'n ymwneud â'n contract gwasanaethau cyfreithiol. Cafodd yr Aelodau eu sicrhau nad yw'r gwrthdaro a gafwyd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn berthnasol i'r Amgueddfa ac y byddai'r contract gwasanaethau cyfreithiol yn cael ei gaffael trwy'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol yn y dyfodol. Bydd yr Amgueddfa yn gweithredu ar un mater a godwyd gan PAC ac yn rhoi'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.</p> <p>8.3 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny.</p>	
<p>9 LLYWODRAETHIANT</p> <p>9.1 Penodi aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio</p> <p>9.1.1 <u>Adroddwyd:</u> Adroddodd y Llywydd bod lle ar gyfer Aelod annibynnol newydd ar y Pwyllgor Archwilio gan fod Huw Williams wedi ymddeol o'r pwyllgor. Ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio, yr Is-lywydd a'r Trysorydd, argymhellodd y Llywydd bod Michael Prior, cyfreithiwr ac uwch bartner gyda Blake Morgan, yn cael ei benodi i'r Pwyllgor.</p> <p>9.1.2 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny a bod Michael Prior yn cael ei benodi'n Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio.</p> <p>9.2 Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan</p> <p>9.2.1 <u>Adroddwyd:</u> Ar ôl i bedwar Ymddiriedolwr oedd yn Aelodau o Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan ymddeol ar 31 Hydref 2015, argymhellodd y Llywydd bod Victoria Provis yn cael ei phenodi i'r Grŵp.</p> <p>9.2.2 <u>Penderfynwyd:</u> Yn unol â hynny a bod Victoria Provis yn cael ei phenodi yn Aelod o Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan o 01 Tachwedd 2015 ymlaen.</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p> <p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>
<p>10 MATERION CASGLIADAU</p> <p>10.1 Cydlynnydd Datblygu Casgliadau/gweithdai</p> <p>10.1.1 <u>Adroddwyd:</u> Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol bod Cydlynnydd wedi'i benodi trwy recriwtio'n fewnol yn yr wythnos flaenorol i reoli rhaglen o weithdai gyda staff er mwyn paratoi strategaeth ar gyfer datblygu casgliadau. Ariannwyd y gweithdai gan Sefydliad Paul Hamlyn.</p> <p>10.2 Adroddiad Casgliadau ac Ymchwil</p> <p>10.2.1 <u>Derbyniwyd:</u> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p>	

Nodiadau	Gweithredu
<p>10.2.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod yr adroddiad wedi'i nodi.</p> <p>10.2.3 Bu'r Aelodau'n trafod yr angen i gyfeirio at y projectau gweddnewidiol, yn cynnwys Sain Ffagan, yn yr adroddiad.</p> <p>10.2.4 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod adroddiadau o hyn ymlaen, os yw'n briodol, yn cynnwys diweddariadau ar brojectau gweddnewidiol allweddol sy'n cael blaenoriaeth.</p> <p>10.3 Benthyciadau Rhyngwladol</p> <p>10.3.1 <u>Derbyniwyd</u>: Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol.</p> <p>10.3.2 <u>Adroddwyd</u>: Bod y Bwrdd wedi ystyried argymhellion y Grŵp Cyngori Celf.</p> <p>10.3.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod y Benthyciadau Rhyngwladol yn cael eu cymeradwyo.</p> <p>10.4 Aelodau annibynnol y Pwyllgor Cyngori Ymchwil</p> <p>10.4.1 <u>Adroddwyd</u>: Adroddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol ei fod wedi cysylltu â thri Aelod newydd posibl gyda chaniatâd Aelodau presennol y Pwyllgor Cyngori Ymchwil. Roedd Chris Williams o Brifysgol Caerdydd wedi derbyn ei wahoddiad yn ffurfiol ac roedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn disgwyl am ymateb oddi wrth y ddau arall.</p> <p>10.4.2 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny ac y dylid cwblhau'r broses recriwtio mewn pryd ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 19 Tachwedd 2015 os oedd modd.</p>	<p>Cyfarwyddwr Cyffredinol</p> <p>Cyfarwyddwr Cyffredinol</p>
11 COFNODION DRAFFT GWAHANOL GYFARFODYDD	
<p>11.1 <u>Derbyniwyd a Nodwyd</u>: Cofnodion drafft:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Mentrau AOCC Cyf 5 Gorffennaf 2015 ii. Ymddiriedolwyr Pensiynau 15 Gorffennaf 2015 iii. Pwyllgor Adolygu Perfformiad 16 Gorffennaf 2015 iv. Cydgyfarfod y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a'r Pwyllgor Archwilio 16 Gorffennaf 2015 v. Pwyllgor Archwilio 16 Gorffennaf 2015 vi. Grŵp Comisiynu Project Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru 8 Medi 2015 <p>11.2 <u>Adroddwyd</u>: O ran y Pwyllgor Adolygu Perfformiad a Chasgliad y Werin Cymru, bu'r Aelodau'n trafod manteision rhannu'r adroddiadau a gyflwynwyd i'r ddau grŵp.</p> <p>11.3 <u>Penderfynwyd</u>: Yn unol â hynny a bod yr adroddiadau'n ymwneud â'r Adran Ddatblygu, a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Adolygu Perfformiad, yn cael eu hanfon yn hollol gyfrinachol i'r holl Ymddiriedolwyr ynghyd â'r cofnodion ac adroddiad cynnydd gan Gasgliad y Werin Cymru. Bod lleoliad cyfarfod Grŵp</p>	<p>Ysgrifennydd yr Amgueddfa</p>

Nodiadau	Gweithredu
Comisiynu Project Sain Ffagan yn cael ei gywiro yn y cofnodion.	
<p>12 UNRHYW FATER ARALL</p> <p>12.1 Cofnododd y Llywydd ei diolch i Linda Tomos, Cyfarwyddwr MALD, am ei chefnogaeth i'r Amgueddfa. Diolchwyd i Victoria Provis hefyd am ei gwaith ar ddigwyddiad llwyddiannus Cymru yn Llundain. Diolchodd y Llywydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol i'r pedwar Ymddiriedolwr oedd yn ymddeol: Carole-Anne Davies, Miriam Griffiths, Gareth Wyn Jones, a Christina Macaulay. Roedd pob un wedi dangos ymroddiad ardderchog i'r Amgueddfa dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Roedd yr Amgueddfa'n edrych ymlaen at gael eu cefnogaeth yn y dyfodol.</p> <p>12.2 Gwahoddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Aelodau i sgwrs am 6pm ar 19 Hydref 2015 rhwng yr awdur Iain Sinclair a'r Athro Damian Walford Davies ar achlysur lansio llyfr diweddaraf Iain Sinclair, <i>Black Apples of Gower</i>.</p>	
<p>DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF:</p> <p><u>Penderfynwyd:</u> Y bydd cyfarfod nesaf y Bwrdd Ymddiriedolwyr yn dechrau am 9am ar 17 Rhagfyr 2015 yn Ystafell y Llys, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.</p>	